Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Protocol ar y Cyd
# wrth baratoi ar gyfer etholiad
# Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
# Mai 2024

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Mawrth 2024

## Cyflwyniad

Bydd etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn cael ei gynnal ddydd Iau 2 Mai 2024. Mae’r protocol hwn yn darparu canllawiau a mesurau diogelu i swyddogion a staff o fewn Heddlu Dyfed-Powys (yr Heddlu) a Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) ar sut i ymddwyn yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad er mwyn osgoi honiadau o ragfarn a sicrhau yr ymdrinnir ag ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr mewn modd tryloyw a chyfartal.

Mae’r canllawiau hyn yn seiliedig ar y Cod Statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Awdurdodau Plismona, a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (01/2011), Canllawiau Seneddol ar y Cyfnod Sensitifrwydd Cyn-etholiad (Rhif 5262 8 Mai 2019), Cymdeithas Llywodraeth Leol, a chyngor ategol arall.

Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, yw Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu. Ef sy'n atebol am gynnal yr etholiad. Os oes pryderon ynghylch rhedeg yr etholiad neu ymddygiad ymgeisydd, gellir ei gyfeirio at Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

Yn y ddogfen hon, dylid cymryd bod ‘ymgeiswyr’ yn cynnwys unrhyw ddarpar ymgeiswyr, ymgeiswyr wedi'u cadarnhau, eu hasiantau, neu bleidiau gwleidyddol.

Pwynt cyswllt enwebedig SCHTh yw'r Prif Weithredwr a Swyddog Monitro, Carys Morgans. Mae'r Prif Weithredwr a Swyddog Monitro yn gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad i randdeiliaid, gan gynnwys aelodau staff, gan sicrhau na ddefnyddir adnoddau'r swyddfa at ddibenion etholiad. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Carys Morgans, Prif Weithredwr a Swyddog Monitro SCHTh, yn PCCEelections2024@dyfed-powys.police.uk

Bydd y Prif Gwnstabl yn enwebu un pwynt cyswllt a fydd yn gyfrifol am gysylltu â Phrif Weithredwr SCHTh mewn perthynas ag ymholiadau. Bydd hefyd yn darparu cyswllt i blismona'r etholiad.

Bydd y Prif Weithredwr a/neu’r Prif Gwnstabl yn ceisio arweiniad gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ynghylch unrhyw weithgarwch y credant y gallai ymyrryd â’r etholiad.

Yn y ddogfen hon, dylid cymryd bod ‘ymgeiswyr’ yn cynnwys unrhyw ddarpar ymgeiswyr, ymgeiswyr wedi'u cadarnhau, eu hasiantau, neu bleidiau gwleidyddol.

## Trefniadol

- Dylid bod yn arbennig o ofalus ynghylch cymorth swyddogol a’r defnydd o adnoddau (gan gynnwys cyhoeddusrwydd) ar gyfer cyhoeddiadau swyddogol a allai gael effaith ar faterion sy'n berthnasol i'r etholiadau.

- Dylid cymryd gofal arbennig mewn perthynas ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd fel nad ydynt yn agored i feirniadaeth eu bod wedi'u cyflawni at ddiben plaid wleidyddol neu i gefnogi ymgeisydd penodol.
- Rhaid i SCHTh a'r Heddlu beidio â chyhoeddi deunydd sy'n cyfeirio at gefnogaeth i blaid neu ymgeisydd, neu y gellid, mewn unrhyw ffordd, ei ddehongli fel deunydd sydd wedi'i gynllunio i effeithio ar gefnogaeth i blaid neu ymgeisydd.
- Bydd SCHTh yn cadw manylion yr wybodaeth a ddarperir i ddarpar ymgeiswyr neu ymgeiswyr a gadarnhawyd neu bleidiau gwleidyddol. Bydd yr wybodaeth hon yn ddienw ac yn cael ei chyhoeddi ar https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/etholiad-chth-2024/
- Bydd SCHTh yn cydlynu unrhyw ymweliadau safle neu gyfarfodydd ymgeiswyr gyda'r Prif Swyddogion a swyddogion statudol SCHTh mewn ymgynghoriad â'r Heddlu.

### *Ymwneud ag Ymgeiswyr*

- Prawf hanfodol o ran priodoldeb unrhyw ymgysylltiad ag ymgeisydd yw *"a yw'n ymddangos ei fod yn ffafrio un ymgeisydd yn erbyn un arall, boed hynny o ran gwybodaeth neu broffil cyhoeddus?"*
- Dylid cymryd gofal mewn perthynas ag ymweliadau gan ymgeiswyr ag eiddo'r Heddlu. Mae unrhyw gais i ymweld ag eiddo swyddogol i'w gyfeirio at Brif Weithredwr SCHTh ymlaen llaw i gael penderfyniad.
- Ni ddylid ymgymryd â chefnogaeth ar gyfer un ymgeisydd na fyddai neu na ellid ei wneud gydag ymgeisydd arall. Rhaid trin pob un yn gyfartal a rhaid i bob un gael mynediad cyfartal at wybodaeth.
- Mae darpar ymgeiswyr ac ymgeiswyr yn parhau i fod yn aelodau o'r cyhoedd ac nid oes ganddynt hawl i wybodaeth gyfrinachol.

### *Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) Presennol*

- Mae'r CHTh presennol i'w drin yr un fath ag ymgeiswyr eraill, gyda phob cais am wybodaeth yn cael ei gofnodi a'i rannu ar wefan SCHTh.
- Yn wahanol i lawer o swyddi etholedig eraill, mae'r CHTh presennol yn cynnal y sefyllfa drwy gydol cyfnod yr etholiad. Felly, mae dyletswydd ar yr CHTh presennol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod gweithgareddau, yn enwedig yn ystod y cyfnod cyn etholiad, yn cael eu cyfyngu i rolau statudol na ellid eu gweld fel rhai sy'n dylanwadu ar yr etholiad.

Dylid hefyd ystyried y canlynol:

- Y cyfyngiadau a osodir ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn rhinwedd y Cod Ymarfer ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol.

- Effaith Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus – Egwyddorion Nolan, y mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn rhwym iddynt fel deiliaid swydd gyhoeddus.
- Effaith Llw Swydd yr CHTh.

## *Staff SCHTh a Swyddogion a Staff Heddlu*

- Mae holl staff SCHTh dan gyfyngiadau gwleidyddol ac ni allant gefnogi ymgeiswyr CHTh yn weithredol.
- Ni chaniateir i unrhyw Swyddog Heddlu mewn swydd nac aelod o Staff Heddlu / Staff SCHTh sefyll fel ymgeisydd ar gyfer CHTh a rhaid iddynt ymddiswyddo o leiaf 19 diwrnod cyn eu datganiad o ymgeisyddiaeth os ydynt yn bwriadu sefyll. Fodd bynnag, mae diwygiadau i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a.65 gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 a.122 yn caniatáu i Ddirprwy CHTh sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cyffredin heb orfod ymddiswyddo.
- Mae'n rhaid i bob Swyddog a Staff Heddlu mewn swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol osgoi unrhyw gamau y gellid yn rhesymol eu hystyried yn gefnogol i unrhyw blaid, ymgeisydd neu farn. Mae hyn yn cynnwys annog unrhyw un i bleidleisio dros ymgeisydd penodol, trin ymgeiswyr yn wahanol, a chefnogi neu ymosod ar farn ymgeiswyr. Mae hyn bob amser – ni waeth a ydynt yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd yn y gwaith ai peidio.
- Mae'n rhaid i staff heddlu nad ydynt mewn swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, pan fyddant ar ddyletswydd, osgoi unrhyw gamau sy'n cael eu hystyried neu y gellid yn rhesymol eu hystyried yn gefnogol i unrhyw blaid, ymgeisydd neu farn. Mae hyn yn cynnwys annog unrhyw un i bleidleisio dros ymgeisydd penodol, trin ymgeiswyr yn wahanol, a chefnogi neu ymosod ar farn ymgeiswyr. Fodd bynnag, nid oes disgwyl iddynt aros yn wleidyddol niwtral yn eu bywydau preifat ond ni ddylent gyfeirio at eu rolau fel gweithwyr yr Heddlu na defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd trwy eu cyflogaeth i gefnogi ymgeiswyr.
- Dylai staff SCHTh, swyddogion heddlu neu staff heddlu sy'n defnyddio unrhyw fath o gyfryngau cymdeithasol fod yn ofalus dros unrhyw gynnwys sy'n ymwneud â'r etholiad.
- Boed ar ddyletswydd neu oddi ar ddyletswydd, mae'r Cod Moeseg[1] a'r gwerthoedd craidd yn dal yn berthnasol i bob aelod o staff, gan gynnwys y gofyniad i fod yn "deg ac yn ddiduedd".

[1] Coleg Plismona, Cod Moeseg

## Ymddygiad

Mae'r egwyddorion uchod yn darparu gwybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau. Cânt eu hategu gan y gofynion a roddir ar staff Swyddfa'r Comisiynydd, swyddogion heddlu a staff yr heddlu o ran eu hymddygiad cyffredinol, yn benodol:

- ***Swyddogion yr Heddlu***

Mae Rheoliadau'r Heddlu 2003 yn nodi amodau gwasanaeth swyddogion, gan gynnwys yr angen i ymatal rhag unrhyw weithgaredd sy'n debygol o ymyrryd â chyflawni dyletswyddau'n ddiduedd neu greu argraff o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Ymhellach, mae Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 hefyd yn amlygu safonau ymddygiad disgwyliedig megis gonestrwydd ac uniondeb, awdurdod, parch a chwrteisi, a thegwch a diduedddrwydd.

Mae cyfyngiadau ychwanegol ar swyddogion heddlu yn ystod y broses o ddewis Comisiynwyr Heddlu a Throseddu:

*'Ni all cwnstabl heddlu ar gyfer unrhyw ardal heddlu, trwy air, neges, yn ysgrifenedig neu mewn unrhyw fodd arall, geisio perswadio unrhyw unigolyn i roi, neu ddarbwyllo unrhyw unigolyn i roi, ei bleidlais, boed fel etholwr neu fel dirprwy yn etholiad CHTh.'*

Dylai swyddogion heddlu felly ymatal rhag annog etholwyr i bleidleisio, drwy unrhyw fath o ryngweithio, boed hynny drwy gyfarfodydd cymdogaeth neu unrhyw gyswllt drwy eu busnes o ddydd i ddydd.

- ***Staff yr Heddlu***

Mae Cyd-gylchlythyr 54 Cyngor Staff yr Heddlu, Safonau Ymddygiad Proffesiynol 2008[2] ar gyfer staff yr heddlu yn amlygu'r angen i gadw at safonau perthnasol megis gweithredu'n ddiduedd a datgelu gwybodaeth yn y ffordd gywir yn unig o weithio. Yn ogystal, mae rhai swyddi wedi'u cyfyngu'n wleidyddol o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Os bydd unrhyw un yn ceisio cefnogi ymgeisydd yn yr etholiad, bydd y Prif Weithredwr yn darparu cyngor ac arweiniad addas yn ymwneud â gwaith, gan asesu pob achos yn ôl ei deilyngdod. Cyn belled nad yw'r gweithgaredd yn gwrthdaro â pharhau yn y rôl, rhaid i'r unigolyn fod yn glir pan fydd yn ymgymryd â gweithgareddau neu'n gwneud ceisiadau am wybodaeth fel darpar ymgeisydd neu gefnogwr.

[2] https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/workforce - Police - PSC handbook – Guidance Note 9 – Standards of Professional Behaviour.pdf

- ***Staff SCHTh***

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn gosod cyfyngiadau gwleidyddol ar staff SCHTh ac eithrio Dirprwy CHTh.

### *Cwynion*

Mae safonau ymddygiad proffesiynol mewn statud fel sy'n berthnasol i swyddogion ond wedi'u hymgorffori ym mhob contract cyflogaeth. Os derbynnir cwynion am y cyfnod cyn etholiad a/neu'r etholiad mewn perthynas â swyddogion heddlu neu staff yr heddlu, bydd y rhain yn cael eu cyfeirio at yr Adran Safonau Proffesiynol yn unol â pholisi'r Heddlu. Bydd cwynion yn ymwneud â staff SCHTh yn cael eu cyfeirio at Brif Weithredwr SCHTh.

### Ymgysylltu ag ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr

Bydd pleidiau gwleidyddol yn cynnal eu proses ddethol eu hunain i enwebu eu hymgeiswyr yn ystod 2023 a dechrau 2024. Yn ystod yr un cyfnod, gall aelodau annibynnol hefyd hysbysu'r cyhoedd o'u bwriad i sefyll. Bydd rhai darpar ymgeiswyr yn cyhoeddi eu diddordeb i sefyll ymhell cyn yr etholiad tra gall eraill gadw eu bwriadau iddynt eu hunain tan y cyfnod ar gyfer datganiadau ffurfiol.

Drwy gydol y cyfnodau gwahanol hyn, mae diddordeb y cyfryngau yn debygol o gynyddu, fel y bydd y cyswllt rhwng darpar ymgeiswyr, Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd ar Swyddfa'r Comisiynydd na'r Heddlu i drin ymgeiswyr neu ddarpar ymgeiswyr fel cynrychiolwyr etholedig. Serch hynny, dylid defnyddio disgresiwn mewn ymateb i unrhyw geisiadau rhesymol am wybodaeth.

### Ceisiadau am Wybodaeth

Lle derbynnir cais am wybodaeth gan ddarpar ymgeisydd neu ymgeisydd, bydd y broses ganlynol yn cael ei mabwysiadu:

- Os nad yw'r ymgeisydd wedi datgan, yna bydd y cais yn cael ei drin fel pe bai gan unrhyw aelod o'r cyhoedd.
- Dylid cyfeirio'r cais at PCCEelections2024@dyfed-powys.police.uk lle bydd un gofrestr electronig yn cael ei chadw. Bydd pob cais sy'n cael ei gyfeirio at yr heddlu yn cael ei ailgyfeirio i'r lleoliad unigol hwn i sicrhau tryloywder a chydraddoldeb llawn. Bydd yr holl ymatebion trwy e-bost. Os derbynnir cais ar lafar, mae arfer da yn awgrymu y dylid cadarnhau hyn yn ôl i'r ceisydd yn ysgrifenedig cyn rhoi ateb.
- Wrth lunio ymateb, dylid cydnabod y gallai'r wybodaeth a ddarperir gael ei defnyddio at ddibenion gwleidyddol ac ymgyrchu.
- Lle bo'n gais Rhyddid Gwybodaeth, bydd yr arfer gweithredu safonol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol. Bydd pob awdurdod cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfrifol o dan y Ddeddf am eu datgeliadau eu

hunain a hefyd yn anfon yr un peth at Brif Weithredwr SCHTh. Bydd pob ymateb yn ddienw ac yn cael ei bostio ar y dudalen we ar gyfer yr etholiad SCHTh.

## Cyfryngau

Fel yr amlinellwyd yng nghanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) 2024, wrth ymdrin â datganiadau cyhoeddusrwydd adweithiol a datganiadau i'r wasg gan bleidiau neu ymgeiswyr, gall yr Heddlu fabwysiadu'r egwyddorion canlynol:

- Gall ymateb fod yn briodol pan fydd hawliadau'n seiliedig ar wybodaeth ffeithiol anghywir neu pan fo angen cywiro camddealltwriaeth a fyddai'n tanseilio hyder yng ngwasanaeth yr heddlu. Dylid bod yn ofalus i beidio â chael eich gweld yn ymosod ar safbwynt ymgeisydd, dim ond cywiro gwallau.

Efallai na fydd ymateb yn briodol pan fydd hawliadau yn seiliedig ar ddehongliad yr unigolyn hwnnw o wybodaeth neu amgylchiadau.Nid yw busnes yr heddlu yn dod i ben yn y cyfnod cyn etholiad a rhaid cyflawni swyddogaethau arferol plismona. Ond rhaid bod yn arbennig o ofalus yn y cyfnod hwn i osgoi gweithgarwch neu gyhoeddusrwydd a allai effeithio neu ddylanwadu, neu'n rhesymol i'w weld yn effeithio neu'n dylanwadu, ar ganlyniad yr etholiad.

## Cyfarfodydd Trefnedig

- Bydd Prif Weithredwr SCHTh yn trefnu i gyfres o ddeunyddiau briffio ffeithiol gael ei datblygu a'i gosod ar y dudalen we ar gyfer yr etholiad SCHTh. Bydd ymgeiswyr sy'n gofyn am wybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y dogfennau hyn yn cael eu cyfeirio at y wefan.
- Ar 9 Ebrill 2024, bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i fynychu sesiwn friffio. Dim ond gwybodaeth ffeithiol fydd yn y sesiwn friffio a bydd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd yn cael ei hysbysu o'r dyddiad briffio er mwyn hysbysu ymgeiswyr o'r gwasanaeth a gynigir. Bydd ymatebion i gwestiynau yn ystod y sesiwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan SCHTh.
- Yn ogystal, gellir cynnal cyfarfodydd unigol gyda'r Prif Gwnstabl, Prif Weithredwr SCHTh a Phrif Swyddog Cyllid SCHTh. Bydd y cyfarfodydd hyn ond yn cael eu darparu ar ôl datganiad ffurfiol o fwriad i sefyll yn yr etholiad a lle nad yw eu cais am wybodaeth wedi'i gynnwys mewn dogfennau presennol mewn mannau fel gwefan SCHTh. Bydd hyn yn cael ei reoli gan Brif Weithredwr SCHTh, a fydd yn cydlynu'r broses â'r Heddlu. Bydd angen hysbysiad ymlaen llaw o unrhyw gwestiynau a bydd nodiadau'n cael eu cymryd o'r drafodaeth a'u postio ar y dudalen we ar gyfer yr etholiad SCHTh.
- Ni fydd y sesiynau briffio uchod yn ymdrin â rhedeg yr etholiad, a fydd yn gyfrifoldeb Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

## Ymweliadau ag Adeiladau

Bydd ceisiadau am ymweliadau ag eiddo’r Heddlu at ddiben canfod ffeithiau a derbyn sesiynau briffio yn cael eu hystyried gan Brif Weithredwr SCHTh fesul achos. Bydd pob ymgeisydd yn cael cynnig yr un cyfleoedd. Fodd bynnag, y prif ddulliau o ganfod ffeithiau fydd trwy wefan SCHTh, y sesiynau briffio y manylir arnynt uchod, a cheisiadau penodol am wybodaeth drwy Brif Weithredwr SCHTh. Bydd pob cais ac ymateb yn cael eu cofnodi ar y gofrestr electronig, gan sicrhau tryloywder llawn a didueddrwydd o ran triniaeth.

## Ffotograffau

Hyd nes y bydd y cyfnod cyn yr etholiad yn dechrau ar 25 Mawrth, mae'n dderbyniol ffilmio neu ddynnu llun o ymgeiswyr gyda staff SCHTh neu swyddogion a staff yr heddlu ar gyfer papurau newydd neu fwletinau newyddion teledu, ar yr amod bod unigolion yn fodlon cael eu ffilmio / cael tynnu eu llun. Fodd bynnag, unwaith o fewn y cyfnod cyn yr etholiad, ni ddylid ffilmio neu ddynnu llun o staff SCHTh neu swyddogion a staff yr heddlu.

Atgoffir yr holl swyddogion a staff bod yn rhaid iddynt ar bob adeg gadw eu hannibyniaeth a pheidio â chael eu gweld yn rhagfarnllyd a/neu i fod yn cefnogi un ymgeisydd neu blaid dros un arall.

## Delweddaeth yr Heddlu

Bydd SCHTh a'r Heddlu yn ceisio sicrhau na chaiff eu delweddaeth a'u lifrai eu defnyddio mewn unrhyw ddeunydd ymgyrchu neu gyhoeddusrwydd a bydd y cyfyngiad hwn yn cael ei gynnwys yn y deunydd briffio i ymgeiswyr ar wefan SCHTh. Lle caiff ei ddefnyddio, bydd y Prif Gwnstabl neu Brif Weithredwr SCHTh yn ystyried yr angen i ofyn i'r ymgeisydd ddileu neu dynnu'r deunydd yn ôl. Bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod ond bydd yn cynnwys ystyriaeth o broffil y ddelwedd, y neges a roddwyd, faint o gyhoeddiad a gyflawnwyd eisoes, a'r niwed tebygol i enw da a hyder mewn gwasanaethau plismona.

## Amserlen

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2024, am 5.30pm | Sesiwn briffio darpar ymgeiswyr ac asiantau |
| Dydd Llun, 25 Mawrth 2024 | Hysbysiad Etholiad |

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2024, i ddydd Gwener, 5 Ebrill 2024 (rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith) | Dosbarthu papurau enwebu. Cynghorir yn gryf y dylid cynnal gwiriadau rhithwir anffurfiol o bapurau enwebu. |
| Dydd Gwener, 5 Ebrill 2024 (amser i'w gadarnhau) | Dosbarthu’r anerchiad etholiadol |
| Dydd Llun, 8 Ebrill 2024 | Datganiad y rhai a enwebwyd a chyhoeddi’r Hysbysiad Etholiad. |
| Dydd Llun, 8 Ebrill 2024, am 5.30pm | Sesiwn briffio ymgeiswyr ac asiantau gyda Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu |
| Dydd Mawrth, 9 Ebrill 2024, am 9am | Sesiwn briffio ymgeiswyr ac asiantau gyda Phrif Swyddogion yr Heddlu |
| Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2024 (erbyn 11.59pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i gofrestru |
| Dydd Mercher, 17 Ebrill 2024 (5pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn neu ddiwygio ceisiadau am bleidleisiau drwy’r bost |
| Dydd Mercher, 24 Ebrill (5pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am bleidleisiau drwy ddirprwy |
| Dydd Mercher, 24 Ebrill (5pm) | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr |
| Dydd Iau, 2 Mai 2024 | Diwrnod yr etholiad / pleidleisio |
| Dydd Gwener, 3 Mai 2024 (yn dechrau erbyn 9am) | Dilysu a chyfrif pleidleisiau CHTh ac yna datgan y canlyniadau |

## Crynodeb

Mae’r cyfnod cyn yr etholiad yn dechrau ar 25 Mawrth ac yn gorffen ar 2 Mai. Mae hwn yn gyfnod arbennig o sensitif ac mae angen cymryd gofal arbennig. Mae canllawiau pellach ar gael gan Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Gartref. Beth bynnag, yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad, bydd y cyfyngiadau ychwanegol canlynol yn berthnasol:

- Lle bo'n ymarferol, dylai SCHTh a'r Heddlu osgoi gwneud a rhoi cyhoeddusrwydd i benderfyniadau polisi mawr y gellir eu hystyried yn wleidyddol sensitif, newydd, dadleuol neu ôl-effeithiol.
- Dylai gwefannau SCHTh a'r Heddlu fod yn wleidyddol niwtral a rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth ffeithiol yn unig.
- Ni ddylid cyhoeddi dogfennau sy'n hyrwyddo'r CHTh presennol.
- Rhaid i staff SCHTh, swyddogion heddlu a staff yr Heddlu sicrhau nad ydynt yn cyfrannu at neu'n cefnogi gweithgareddau ymgeisydd.
- Rhaid cadw cofnodion clir o’r holl ymwneud ag ymgeiswyr drwy gydol y cyfnod cyn yr etholiad er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, oni bai fod yr CHTh presennol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
- Rhaid i staff SCHTh, swyddogion heddlu a staff yr Heddlu beidio â chytuno i fod mewn lluniau na chael eu defnyddio fel rhan o unrhyw ymgyrch.
- Dylai staff yr Heddlu a swyddogion heddlu sydd â gwefannau neu flogiau personol, neu sy’n defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, wneud y canlynol:

  - Peidio â phostio unrhyw sylwadau sy’n cefnogi unrhyw ymgeisydd y gellid eu gweld fel rhai sy’n cael eu gwneud, neu sy’n rhoi’r argraff eu bod yn cael eu gwneud, yn rhinwedd eu rôl broffesiynol.
  - Bod yn ymwybodol, po uchaf yw eu proffil cyhoeddus, y mwyaf tebygol yw hi y byddant yn cael eu hystyried yn gweithredu yn eu swyddogaeth swyddogol wrth ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol.
  - Bod yn ofalus wrth wneud pwyntiau gwleidyddol neu wneud sylwadau penodol neu bersonol am unigolyn.

Rhaid i SCHTh a'r Heddlu aros yn wleidyddol annibynnol. Felly, nod y protocol ar y cyd hwn a'r gweithdrefnau sylfaenol yw sicrhau bod tryloywder a chydraddoldeb i bob darpar ymgeisydd yn y cyfnod cyn yr etholiad a thrwy gyfnod yr etholiad yn cael eu cynnal.

## Heddlu Dyfed-Powys

Mae niwtraliaeth wleidyddol y gwasanaeth heddlu yn sail i gyfreithlondeb Heddlu Dyfed-Powys i orfodi'r gyfraith a gwella diogelwch pawb yn y sir. Dylai'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd swyddogion a staff yn eu gwasanaethu'n deyrngar ac yn ddiduedd.

| | |
|---|---|
| **Dr Richard Lewis** | **Carys Morgans** |
| **Prif Gwnstabl** | **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro** |
| **Heddlu Dyfed-Powys** | **SCHTh Dyfed-Powys** |